

Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Graffu ar Gyfrifon 2013-14

Rwyf yn croesawu canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r tri argymhelliad ynddo sy'n ymwneud â Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Argymhelliad 4. Os bydd y berthynas ariannu bresennol yn parhau, dylai Llywodraeth Cymru gyfleu ei phenderfyniad yn gynnar o ran y cyllid sydd ar gael i'r Comisiynwyr. Yna dylai'r cyllidebau hyn gael eu diogelu rhag gostyngiadau adrannol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. (Tudalen 31)

Derbynnir ysbryd yr argymhelliad. Wrth i'w phwerau ariannol ddatblygu mae Llywodraeth Cymru wrthi'n adolygu prosesau ac amserlen y gyllideb er mwyn darparu proses gyllidebol briodol i Gymru. Bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymwybodol o'r gwaith sy'n mynd rhagddi gyda'r Pwyllgor Cyllid yn y maes hwn ac Ymchwiliad y Pwyllgor hwnnw i brosesau Arferion Gorau ar gyfer Cyllidebau. Mae Llywodraeth Cymru erioed wedi parchu angen y Comisiynwyr am annibyniaeth weithredol a byddai felly'n ceisio darparu cymaint o sicrwydd â phosibl ar eu cyfer. Mae gan y Gweinidogion cyfrifol yr hyblygrwydd i gytuno ar gyllidebau i unrhyw gyrrff y maent yn ei hariannu, er hynny, er nad yw'n ddymuniad lleihau unrhyw gyllideb ar ôl iddi gael ei dyrannu, nid oes modd rhoi gwarant bendant. Er y caiff y sefyllfa ei hosgoi lle bo modd, efallai y bydd achosion lle bydd y camau hyn yn angenrheidiol oherwydd y pwysau a'r ansicrwydd o fewn y Gyllideb gyffredinol.

Argymhelliad 7. Dylai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru nodi yn eu cyllidebau a'u cyfrifon eu dull o reoli arian - yn enwedig eu targed ar gyfer tanwariant. (tudalen 42)

Derbynnir yr argymhelliad hwn. Nodir ymagwedd gyffredinol Llywodraeth Cymru at y sefyllfa ariannol mewn unrhyw flwyddyn yn glir yn ei dogfennau am y gyllideb. Mae'r rhain yn cynnwys manylion y dyraniadau a'r yswiriant cyllidebol y mae Llywodraeth Cymru'n eu dal wrth gefn i helpu i reoli'r sefyllfa ariannol. Mae Cyllidebau Atodol yn adeiladu ar hyn gan ddarparu manylion lefelau'r tanwario a reolir ynddynt, fel rhan o System Cyfnewid Cyllidebau Llywodraeth y DU, a'r cronfeydd a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn. Yn olaf mae adroddiad ar wahân ar alldro, y mae Llywodraeth Cymru'n ei ddarparu i'r Pwyllgor Cyllid, yn disgrifio perfformiad yn erbyn y ddwy gyllideb y cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol arnynt ac yn erbyn rheolaethau Llywodraeth y DU. Rhoes adroddiad 2013-14 danwariant o 0.1% yn erbyn Adnoddau Cyllidol a 0.7% yn erbyn Cyllidebau Cyfalaf fel y'u cymeradwywyd yn yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer y flwyddyn honno. Mae cyfrifon blynyddol Llywodraeth Cymru'n cydymffurfio'n llawn â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) sy'n pennu'r wybodaeth i'w chyhoeddi gan bob un o gyrrff y Llywodraeth ganolog yn y DU.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn annog sefydliadau a ariennir gan arian cyhoeddus i ystyried sut maent yn cyflwyno gwybodaeth am eu defnydd o arian cyhoeddus mewn ffordd sy'n hawdd i'r cyhoedd ei deall, ac sy'n dangos blaenoriaethau'r sefydliad a lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r blaenoriaethau hynny. (Tudalen 47)

Derbynnir yr argymhelliad. Mae'r cyfrifon blynyddol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gan gynnwys Llywodraeth Cymru'n cael eu paratoi gan ddefnyddio Llawlyfr Adroddiadau Blynyddol y DU (FReM). Mae'r 'prosiect symleiddio a gwella' wedi bod yn ystyried cynnwys y Llawlyfr yn unswydd i sicrhau bod diwyg a chynnwys y cyfrifon yn fwy dealladwy i'r darllenydd. Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Swyddfa Archwilio Cymru, wedi ymgysylltu'n llawn â'r gwaith hwn ac, yn unol ag Adrannau eraill y Llywodraeth Ganolog, bydd yn cyflwyno'r newidiadau a argymhellir ar ddiwedd 2015-16. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn arwain prosiect peilot ochr yn ochr â chyrrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Swyddfa Archwilio Cymru, a anelir at ymchwilio i sut y cyflwynir gwybodaeth ariannol a heb fod yn ariannol gyda'i gilydd mewn ffordd fwy cydlynus a hygyrch. Mae'r prosiect hwn (Adrodd Integredig neu IR) yn rhan o ddarn ehangach o waith ar draws cyrrff yn y DU ac mae'n cael ei gefnogi gan y corff cyfrifyddu CIPFA. Dylai fod modd i adroddiad integredig gyfleu yn gryno sut y mae strategaeth, llywodraethu, perfformiad a rhagolygon corff, yng nghyd-destun ei amgylchedd allanol yn arwain at greu gwerth yn y tymor byr, canolig a hir. Mae'r newidiadau posibl i'r ffordd y mae cyrrff cyhoeddus yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad yn sylweddol ac, felly, ni ddisgwylir i'r peilot gael ei gwblhau tan 2017-18.